

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 151 Rhif 25 Mehefin 21, 2018 50c.

## DADORCHUDDIO: Cofebau David a Mary Griffiths

Dadorchuddiwyd cofebau David a Mary Griffiths, a fu'n genhadon ym Madagascar, ym mynwent Capel Neuaddlwyd ar fore Gwener, 8 Mehefin, gan Mr Marc Ravalomanana, cyn-arlywydd Madagascar, y Parchg Jonah Radimisaon, Ysgrifennydd Cyffredinol y FJKM (Eglwys Iesu Grist ym Madagascar), a Mr Miara Rabearisoa, sy'n gweithio ar hyn o bryd ym Mhenrhys. Digwyddodd hyn yn absenoldeb y Parchg Ammi Irako Andriamahasoasa, Llywydd y FJKM, gan nad oedd yn cyrraedd Aberaeron tan yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.

Cyn y dadorchuddio, bu i'r Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parchg Geraint Tudur, esbonio'r hyn oedd yn digwydd, a pham, gyda'r geiriau hyn:

'Gyfeillion, aeth David Griffiths allan i Fadagascar yng ngwanwyn 1821 ar ôl treulio cyfnod yma yn Academi Neuaddlwyd. Yno, bu'n gweithio'n ddygn fel athro, trefnydd, cyfundrefnwr, gweinidog, cyfieithydd a chenhadwr, a hynny nes iddo gael ei orfodi i adael yr ynys adeg cyfnod yr erlid.

Treuliodd beth amser ar arfordir Affrica yn ceisio cynorthwyo'r Cristnogion

brodorol i ddianc, ond ym 1841 dychwelodd i Brydain, ac ymsefydlu yn y Gelli Gandryll.

Yr oedd yn awdur nifer o lyfrau: *Hanes Madagascar* (yn Gymraeg), *Hanes y Merthyron* (yn Saesneg), cyfrol ar ramadeg y Falagaseg, amrywiol gatecismau, llyfrau emynau, a mwy. Ei gamp fawr oedd mai ef oedd yn bennaf gyfrifol am gyfieithu'r Beibl i'r Falagaseg, yr iaith Affricanaidd gyntaf i'r Beibl cyfan gael ei gyfieithu iddi.

Trwy gydol ei oes, bu'n gwella ac yn ychwanegu at ei gyfieithiad, a phan symudodd i Fachynlleth ar ddechrau'r 1850au, daliodd ati yn y gwaith hwnnw ac fel y dywedir ar ei garreg fedd,

... up to his last days  
he laboured incessantly in the translation and revision of scripture and other books, to hasten the evangelization of Madagascar, which throughout was the great object of his life.

Bu farw yn 71 oed ar 21 Mawrth 1863 a chladdwyd ef ym mynwent Capel y Graig, Machynlleth.



Yn 2017, daeth yr achos yno i ben; datgorfforwyd yr eglwys, ac wrth i'r capel a'r fynwent gael ei rhoi ar y farchnad, trwy gydsyniad a chaniatâd caredig yr ymddiriedolwyr, penderfynwyd symud y cofebau iddo ef a'i wraig Mary, yn y capel a'r fynwent, yma i fynwent Neuaddlwyd, a diolch i ymddiriedolwyr Neuaddlwyd am ganiatáu i hynny ddigwydd.

Bellach, gallwn gofio a hoffau Thomas a Mary Bevan, David a Louisa Jones, a David a Mary Griffiths yma yn y lle hwn.

Thomas Phillips a'u paratôdd ar gyfer mynd i Fadagascar, a chyda Thomas Phillips y byddant yn cael eu cofio byth mwy.

I Dduw y bo'r gogoniant. Amen.'

Wedi'r dadorchuddio, gwahoddwyd y cyfeillion o Fadagascar, heb rybudd, i ganu cân mewn Malagaseg, a dechreuasant ganu, 'Mi glywaf dyner lais / yn galw arnaf fi.' Yr oedd yn foment ddwys a thrydanol, a chyn hir yr oedd y Cymry wedi ymuno â hwy yn y canu a'r ddwy iaith, a'r moliant, yn plethu i'w gilydd.

## Rhagor o Undeb Aberaeron



Rhodri Darcy yn sôn am lwyddiant cynllun Y Ffordd



Yn cwrdd am y tro cyntaf: Y Parchg Ammi Irako Andriamahasoasa, Llywydd Eglwys Iesu Grist ym Madagascar (yr FJKM) a'r Parchg Jill-Hailey Harries, Llywydd newydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

## Pobl y Pentecost: dal ati i ddysgu

*Dyma'r  
bedwaredd  
erthygl mewn  
cyfres o chwech  
gan y Parch. Casi  
Jones sy'n ein  
harwain i ystyried  
arwyddocâd*



*dyfodiad yr Ysbryd Glân a'i berthnasedd  
i'n heglwysi ni heddiw.*

'Dwed di wrth eraill beth glywaist ti fi'n ei ddweud o flaen llawer o dystion – rhanna'r cwbl gyda phobl y gelli di ddibynnu amyn nhw i ddysgu eraill.'

(2 Timotheus 2:2)

Roedd yr Eglwys Fore'n freintiedig iawn i gael cwmni'r Apostolion, pobl yn ei plith oedd wedi cyfarfod â'r Arglwydd Iesu yn ystod ei fywyd daearol. Roedden nhw hefyd yn derbyn arweiniad yr Apostol Paul gafodd brofiad ysgytwol o gyfarfod â'r Iesu byw ar y ffordd i Ddamascus. Wrth barhau yn nysgeidiaeth yr Apostolion roedd modd i'r Eglwys barhau i glywed llais yr Arglwydd Iesu ei hun. Dwy fil o flynyddoedd yn ddiweddarach, y Testament Newydd yw'r prif gyfrwng i ni glywed ei lais a gallwn dynnu hefyd ar dystiolaeth a phrofiad y Cristnogion a aeth o'n blaenau.

Fel yr Eglwys fore, mae'r Eglwys heddiw yn parhau i fod yn ganolfan addysg werthfawr i Gristnogion o bob oed. Erbyn hyn mae 'na bob math o wahanol ffyrdd o ddysgu – o wrando pregeth ac astudio'r Beibl i wyllo fideo a thrafod mewn grwpiau bychan. Mae rhai yn dewis cynnal cyfarfodydd yn adeilad y Capel ac eraill yn cyfarfod ar aelwydydd ei gilydd. Mae dal ati o ddifrif i ddysgu yn ffordd o helpu ni i dyfu fel unigolion ac i hybu twf a datblygiad Corff Crist.

- *Pa weithgareddau sy'n helpu aelodau eich eglwys i dyfu a datblygu fel disgyblion ar hyn o bryd?*
- *Cynlluniwch un sesiwn awr a hanner i helpu aelodau'r eglwys i ddyfnhau eu ffydd a datblygu eu sgiliau gan feddwl beth fyddai'r thema a beth yw'r ffordd/ffyrdd gorau i gyflwyno'r sesiwn.*
- *Os nad ydych eisoes wedi rhoi cynnig ar gynllun Y Ffordd – beth am roi cynnig ar un sesiwn i ddechrau?*

## Wedi'r hirlwm

Cofiaf fy nhad yn dweud wrthyf lawer gwaith ar y ffarm yn nhymor y Gwanwyn. 'Wel, mae'n hirlwm arnom unwaith eto.' Mynegi pryder yr oedd am ei ofal o'r anifeiliaid. Roedd gwair y flwyddyn gynt bron â darfod, a gwynt oer traed y meirw yn atal pob blewyn glas rhag ymddangos yn y caeau. A phan fyddai rhywfaint o dyfiant i'w weld, ni fyddai yno'n hir cyn y byddai'r mamogiaid yn gwneud yn fawr ohono er mwyn rhoi digon o laeth i'w hŵyn llwglyd. Ond er i oerwynt y gaeaf wrthod gollwng ei afael tan ddechrau mis Ebrill eto eleni, dod wnaeth y gwanwyn a'i gynhesrwydd i ddefro'r ddaear a pheri iddi dyfu a glasu.

Dyhead llawer ohonom yw gweld a theimlo gwanwyn ysbrydol Duw unwaith eto yn ein heglwysi. Ers blynyddoedd bellach, mae trymder y gaeaf yn pwyso'n drwm ar eglwysi Cymru, gyda'r canlyniad fod llawer ohonom wedi mynd yn oer yn ysbrydol ac yn wan ein ffydd. Nid siarad digalon a negyddol yw hyn ond realiti'r sefyllfa yr ydym ynddi ar hyn o bryd. Nid yw hynny ynddo'i hunan yn rheswm i laesu dwylo mewn unrhyw fodd. Mae Duw wrth ei waith fel arfer, a'n braint ni yw cyd-weithio gydag ef. Hoffwn ystyried dau beth ynglŷn â'r gwanwyn.

### Prysurdeb y gwanwyn

Gwelwn hyn ym mhrysurdeb y garddwyr yn palu eu gerddi a'u trin i hau'r had, ac yng ngweithgarwch y ffermwyr yn aredig ac yn llyfnu'r tir, a'i wrteithio cyn claddu'r had yn y pridd. Yr un modd, y mae tymor y gwanwyn yn gyfnod prysur hefyd i nifer o anifeiliaid ac adar. Daw'r wiwer allan o'i gwal i chwilio am fwyd ac y mae'r adar yn brysur yn codi tŷ i ddechrau teulu. Tymor geni a magu eu hŵyn hefyd yw'r gwanwyn i'r mamogiaid, ac mae'r ffermwyr yn eu bugeilio ddydd a nos.

Rwy'n hoffi meddwl fod y gwanwyn yn ein deffro ninnau hefyd i fywyd a phrysurdeb newydd. Er gwaetha'r marweidd-dra ysbrydol yn ein gwlad, mae'r Iesu'n Arglwydd ac yn Grist byw

ym mhrofiadau llawer o bobl heddiw, ac adlewyrchir hyn yn eu ffyddlondeb i'r addoliad ar y Sul a'u parodrwydd i wasanaethu ac i gefnogi popeth sy'n dda ac yn ddirchafedig. Tybed a ydych yn cofio cyngor Mari Lewis yn llyfr Daniel Owen i'w mab Rhys? 'Tria gael crefydd y bydd ei chynfas yn lapio rhywun arall heblaw ti dy hun.' Wrth gwrs, mae'r Iesu yn Waredwr personol i bwy bynnag sy'n credu yn ei enw, ond cofiwn hefyd fod Iesu yn Arglwydd sy'n galw arnom i ehangu cylch ein cyfrifoldeb ac 'i fyw bellach, nid i ni ein hunain ond i'r hwn a fu farw drosom ac a gyfodwyd.'

### Peryglon y gwanwyn

Nid yw'r gwanwyn yn dymor rhwydd o anghenraid. Y mae iddo ei beryglon, ac yn arbennig i'r blagur ifanc ar y pren a'r egin newydd yn y caeau a'r gerddi. Gwelsom fwy nag unwaith gae o egin ŷd a'i ddail ifanc wedi melynau gan rew y noson gynt. Gelyn arall yn nhymor y gwanwyn yw'r pïod a'r brain. Os gwelant oen bach gwanlyd newydd ei eni, disgygnant ar unwaith wrth ei myyl, a'r eiliad nesaf, pan fydd y fam yn troi ei phen, anelant eu pigau creulon am lygaid yr un bach.



Fel ym myd natur, rydym ninnau hefyd yn gwybod am beryglon bywyd, a'r profiad o gael ein trechu gan yr un drwg. Yn wir, gall y gelyn fod oddi allan ac oddi mewn i unrhyw un ohonom. Fe aeth Awstin Sant mor bell â dweud, 'Y mae llawer o ddefaid y tu allan i'r Eglwys a llawer o fleiddiaid y tu mewn.' Y mae hyn yn ddweud cryf, ac yn ein gorfodi i holi ein hunain ai rhwystr yntau cymorth ydym i eraill i fyw'r bywyd Cristnogol ai peidio. Holed pob un ohonom ei hunan.

**John Lewis Jones**

## TYSTEB

Bydd y Parchedig Andrew Lenny yn ymdeol o'i ofalaeth fel gweinidog yr Annibynwyr yn Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth, ar ddiwedd Gorffennaf eleni ar ôl 31 mlynedd o wasanaeth diflino. Bwrriedir gwneud tysteb i ddangos gwerthfawrogiad yr ardal iddo ef a Mrs Lenny ac fe dderbynnir cyfraniadau os dymunwch i 'Eglwys Gynulleidfaol Seion Stryd y Popty', i'w hanfon i Lewis Gruffudd, 66 Maesceinion, Waunfawr, Aberystwyth, SY23 3QJ, erbyn 17 Mehefin.

Bydd y dysteb yn cael ei chyflwyno iddynt mewn gwasanaeth arbennig ym mis Gorffennaf.

## Barn Annibynnol

### 'Milflwyddwyr'

Bûm yn freintiedig iawn i dyfu i fyny ar gyrion pentref lle'r oedd Swyddfa Bost, dwy siop groser, siop yn gwerthu dillad i'r teulu cyfan, gŵr a phoni a chert yn mynd o gylich i werthu llysiau o bob math – rhai wedi eu casglu o'r fferm y dydd cynt – a dau laethdy. Mae'n bictiwr delfrydol o'm hieuenctid ond nid felly roedd hi trwy'r amser!

#### Oes wahanol

Daeth llawer i newid dros y degawdau, a nawr pan af trwy'r pentref i'r hen aelwyd yn Llety Brongu, dim ond un siop sydd ar sgwâr y pentref, yn cynnwys y Swyddfa Bost. Pam edrych yn ôl? Pam meddwl am yr hyn a gollwyd? Y dyddiau diwethaf cefais lwyth o wybodaeth am y Milflwyddwyr (Millennials) hynny yw, y bobl sydd rhwng 20 a 35 mlwydd oed. Fe'u ganwyd mewn amser ac oes dra gwahanol i fi.

#### Rhod yn troi

Diflannodd y siop fach. Datblygodd yr archfarchnad i gyflenwi angen pobl am gyfleustra. Yno mae cyfle i ddewis o'r amrywiaeth fwydydd sydd nawr yn rhan o'n bywydau. Ond mae'r cylch yn troi unwaith eto. Mae technoleg yn carlamu mlaen, a chlywn yn ddyddiol am siopau mawr yn cau eu drysau. Does dim hwyl bellach meddir mewn crwydro trwy siop, cwrdd ag ambell ffrind, mynd am goffi, cyfeillachu ac ymestyn gwybodaeth leol.

## Mynnu lle teilwng i hanes Cymru

Ym mis Chwefror eleni, cyflwynwyd deiseb i Lywodraeth Cymru, wedi ei llofnodi gan dros 5,000 o bobl, yn galw arnynt i newid y Cwricwlwm Cenedlaethol er mwyn dysgu hanes Cymru o bersbectif Cymreig yn ein hysgolion cynradd, uwchradd a'r chweched dosbarth. Mae dyfodol ein cenedl yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar ddeall, gwerthuso a dehongli ein gorffennol – y bobl a'r digwyddiadau sydd wedi llunio Cymru heddiw.

Yn y Cyfarfodydd Blynyddol yn Aberaeron, cytunodd y cynadleddwyr bod angen i bobl Cymru ddysgu mwy am hanes



ein gwlad a chyfraniad ein pobl yn rhyngwladol. Wrth gyflwyno Penderfyniad ar ran Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin, dywedodd y Parchg Aled Jones y dylid galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod

Chwilio'r we, prynu ar-lein, cyfeillachu â ffrindiau lawer, cannoedd os nad miloedd ohonynt, trwy'r we yw'r norm heddiw. Mewn arolwg diweddar, darganfuwyd nad oedd llawer o'r milflwyddwyr yn gwybod sut i ddefnyddio'r teclyn symlaf yn y gegin, fel agorwr tun! Mae eu ffyrdd o fyw a chyfathrebu yn wahanol iawn i'r rhai sy'n hynach, yn dipyn hynach na hwynt.

#### Celaeron

Ond beth a wna hyn â ni? Dyma'r rhai rwy'n tybied y gwelwn eu heisiau yn ein cyfarfodydd ar y Sul. Da oedd gweld llawer i berson ifanc yn cymryd rhan yn y dathliadau yn Aberaeron. Roedd 'na wefr arbennig yn y sied geffylau yn Nghelaeron nos Wener. Pwy ond ni'r Cymry byddai'n dod ynghyd yn ein cannoedd mewn lle mor ddiarffordd i gofio a diolch am ddau ŵr ifanc aeth a'r Efengyl i Fadagascar ddwy ganrif yn ôl. Braff oedd cael cwmni pobl o'r ynys gyda ni yn y dathliadau hefyd er mwyn i ni ddiolch gyda'n gilydd.

#### Cymru i Grist

Rydym wedi elwa o dechnoleg heddiw ac yn parhau i wneud, ond credaf nad oes dim yn debyg i'r cyfeillachu a'r gymdeithas rwy'n gyfarwydd â fo. Ydi hynny'n iawn? Mae'n eithaf posib nad yw, a bydd yn rhaid i fi fel eraill o'm cenedlaeth symud yn agosach i fyw y Milflwyddwyr. Un peth sy'n sicr mae'r Ysbryd yn symud lle y mynno a phwy a ŵyr na fydd un neu ddau yn codi o'n mysg y dyddiau hyn yn breuddwydio am ennill Cymru i Grist unwaith yn rhagor.

#### Eurwen Richards

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr na'r tim golygyddol.)

hanes mewn ysgolion a cholegau yn cael ei ddysgu o safbwynt Cymreig. Yn benodol:

- Hanes lleol sy'n tystio i gyfnodau ac i newidiadau ar hyd y canrifoedd
- Hanes datblygiad ein cenedl, gan gynnwys effaith y dylanwadau allanol
- Dylanwad a chyfraniad llesol ac andwyol Cymru a Chymry at hanes rhyngwladol

#### Mwy o sylw i hanes crefydd

Cytunwyd hefyd bod angen rhoi mwy o sylw i'r datblygiadau a'r digwyddiadau crefyddol sydd wedi cyfrannu gymaint tuag at greu cymeriad ein cenedl. Wrth i Lywodraeth Cymru drosi gweledigaeth Adroddiad Donaldson (*Dyfodol Llwyddiannus*, 2015) yn realiti, rhaid sicrhau bod ei gyfeiriadau brith at 'Ddimensiwn Cymreig' yn cael eu gwreiddio yn y maes llafur hanes. Bydd hyn yn cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru a'r byd.

## Rhaid diogelu statws nwyddau Masnach Deg

Mae nifer y nwyddau Masnach Deg sydd ar gael yn yr archfarchnadoedd ac yn ein siopau lleol wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn ôl aelodau Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin. Ar ben hyn, meddent, daeth yn amlwg bod sawl cynnyrch masnachol oedd yn arfer bod â marc y Sefydliad Masnach Deg (Fairtrade Foundation) arnynt bellach yn cael eu gwerthu heb warant y cynllun.

#### Masnachu annheg ar gefn bobl dlawd

Fe gytunodd yr Undeb yn Aberaeron i alw ar siopau bychain a mawrion Cymru i sicrhau bod y nwyddau a werthir ganddynt sy'n dod o wledydd sy'n datblygu wedi eu cynhyrchu mewn ffordd sy'n deg i'r gweithwyr a'u cymunedau. Meddai'r Penderfyniad (a eiliwyd gan y Parchg Tom Defis, yn y llun):



'Credwn os nad yw ein nwyddau yn rhai o farchnad deg, mae'n debyg eu bod yn rhan o farchnad annheg sy'n ecsbloetio pobl dlawd ein byd. Er mwyn sicrhau tegwch, y mae'n hanfodol bod y cynnyrch wedi ei gymeradwyo gan, ac wedi derbyn marc, y Sefydliad Masnach Deg (Fairtrade Foundation). Dyma'r unig farc dilys sy'n sicrhau mwy o'r elw i'r cynhyrchwyr. Mae hefyd yn sicrhau gwell amgylchiadau gwaith i'r gweithwyr, cyfran o elw'r cynnyrch i sicrhau addysg i blant a gofal iechyd i gymunedau, tra ar yr un pryd yn atal llafur plant i ddod a'r cynnyrch i ni.

#### Galw ar yr eglwysi i ymgychu

'Rydym yn ymrwmo i annog ein heglwysi i addo o'r newydd i ddefnyddio nwyddau Masnach Deg ac i ymgychu dros degwch mewn masnach ar draws ein byd. Cydnabyddwn ein rhan yn y gyfundrefn annheg sy'n manteisio ar dlodi eraill. Galwn ar y cynhyrchwyr a'r siopau i ehangu ystod y nwyddau a werthir ganddynt sydd a'r marc Masnach Deg (Fairtrade Foundation) arnynt, ac ar Masnach Deg Cymru ([fairtradewasles.com/we/](http://fairtradewasles.com/we/)) i wneud arolwg o'r siopau sydd yn cefnogi Masnach Deg yng Nghymru.'

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*  
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**  
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
 Caerdydd, CF23 9BS  
 Ffôn: 02920 490582  
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*  
**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**  
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
 LL49 9UE  
 Ffôn: 01766 513138  
 E-bost: IwanLlew@aol.com

**Alun Lenny**  
 Porth Angel, 26 Teras Picton  
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
 Ffôn: 01267 232577 /  
 0781 751 9039  
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*  
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**  
**Busnes Glanrafon, Bro Abertawe**  
**ABERTAWA SA7 0AJ**  
**Ffôn: 01792 795888**  
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

### Dalier Sylw!

Cyhoeddiwr y Pedair Tudalen  
 Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r  
 Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr  
 Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a  
 wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â  
 chynnwys y Pedair Tudalen.

## Mudiad Chwiorydd yr Annibynwyr – Dwyrain Caerfyrddin a Brycheiniog

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Mudiad Chwiorydd yr Annibynwyr, Dwyrain Caerfyrddin a Brycheiniog eleni yng nghapel Seion, Drefach. Ar nos Fawrth, 24 Ebrill, noson ddiflas iawn o ran tywydd, fe ddaeth cynulleidfa luosog ynghyd i fwynhau'r addoli a chymdeithasu.

### Agoriad

Llywyddwyd y rhan gyntaf o'r noson gan Mrs Esme Lloyd. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan aelodau'r Eglwys, sef Mrs Delyth Eynon a Miss Ann Davies. Mrs Caroline Jones oedd wrth yr organ. Rhoddwyd eitem gan chwiorydd y capel a hynny o dan arweiniad Mr Gary Anderson. Diolchodd y Llywydd i Miss Ann Davies am ei gwaith fel ysgrifennydd y Mudiad dros y pum mlynedd diwethaf, a chyflwynodd yr ysgrifennydd newydd, sef Mrs Caroline Jones.

### Trosglwyddo

Yn yr ail ran, cafwyd gair gan y Llywydd ar ddiwedd cyfnod ei llywyddiaeth, cyn trosglwyddo'r swydd a chyflwyno'r Beibl i'r Llywydd newydd, sef Miss Catherine

Clement o gapel Libanus, Pwll, ac ar ôl ei lofnodi, ymatebodd y Llywydd newydd i dderbyn y swydd gyda geiriau pwrpasol.

### Her yr hinsawdd

Ein siaradwr gwadd eleni oedd Elin Rhys, Cyfarwyddwraig Telesgop a'i phwnc oedd

'Her yr Hinsawdd' yn dilyn y gyfres teledu gan y cwmni. Esboniodd yn effeithiol gyda lluniau ar y sgrin am y newid syfrdanol sydd yn digwydd i hinsawdd yr Ynyslas a sut mae'r newid hwn yn dylanwadu ar fodolaeth gweddill gwledydd y byd. Casglwyd a throsglwyddwyd £270 tuag at Gronfa Andrew Pwmps. Ar ôl canu'r emyn olaf, offrymwyd y weddi gan y Gweinidog y Parchedig Gwyn Elfyn Jones. Teimlodd pawb wrth ymadael â'r oedfa iddi fod yn un fendithiol.



*Elin Rhys, Miss Catherine Clement, Mrs Esme Lloyd, Mrs Caroline Jones, Miss Ann Davies, a Mrs Eirlys Morgan, Trysorydd*

## Cymanfa Ganu Llambod a'r Cylch



Plant eglwys Bethlehem, Llanddewibrefi ac eglwys Ty'ngwndwn, Felinfach gyda Mrs Elonwy Davies, arweinydd cymanfa ganu Llambod a'r Cylch yng nghapel Soar ar ddydd Sul 13 Mai 2018.

## Cymun yn Rhyd-y-main



Dyma lun o ran fechan o'r gynulleidfa yng nghapel Rhyd-y-main mewn gwasanaeth Cymun tra gwahanol yn ddiweddar. Dangosodd Iwan Llewelyn ystyr Cymun i blant mewn dull gwahanol a braf iawn oedd cael cwmni'r plant, athrawon yr ysgol Sul a rhieni ifanc yn y gwasanaeth. Yr oedd yn oedfa fyrlymus fywiog gyda'r plant yn cymryd rhan hefyd mewn darlleniadau, gweddïau a chyfraniad gan y côr plant. Yng nghanol y bwrlwm cofiwyd am Thomas Idris Jones, un o'r diaconiaid a fu farw ac a adawodd fwllch mawr ar ei ôl yn y capel a'r gymuned. Dyn o ffydd gadarn a phersonoliaeth braf. Cyfeiliwyd gan Rhianwen Evans gyda Huw Alun yn arwain y canu. Trebor Roberts ddiolchodd i bawb am oedfa gofiadwy.